

Ffair Nadolig

Cynhelir Ffair Nadolig yn Capel Coch Brynhawn Mercher, Rhagfyr 4.

Bydd yno stondinau amrywiol ac os oes gennyh nwyddau newydd neu bron yn newydd nad ydych eu heisiau, yna bydd y trefnwyr yn falch o'u cael ar gyfer y byrddau gwerthu. Bydd yno hefyd stondinau cacennau a thuniau bwyd, a gwerthfawrogi pob cyfraniad tuag at y rheiny.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Fercher, Tachwedd 13: Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Tachwedd 17: Cynhelir Oedfa Deulu am 10.00 o'r gloch, ac yn ystod yr oedfa byddwn yn cynnal pleidlais i ethol diaconiaid newydd i eglwys Ebeneser. Bydd Sul Efe yn Y Ganolfan yn Llanberis rhwng 11.30 ac 1.00 o'r gloch. Ac yna bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

Y mis nesaf - Deiniolen

Tachwedd 10

9.15 a.m. - Oedfa Sul y Cofio
(wrth y Gofgolofn)
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Reuben Roberts

Tachwedd 17

10.00 - Oedfa Deulu
11.30 a.m. - 1.00 p.m.
Sul Efe yn Y Ganolfan, Llanberis
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Tachwedd 24

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Eifion W Williams

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Tachwedd 12: Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

Nos Fawrth, Tachwedd 12: Bydd y Gymdeithas Undebol yn y festri am 7.00 o'r gloch yng nghwmni Mrs Gwen Jones, Llanrug.

Nos Fercher, Tachwedd 13: Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Tachwedd 17: Oedfa am 10.00 o'r gloch dan ofal y Parchg Ddr John Glyn, Llanllyfni. Cynhelir Sul Efe yn Y Ganolfan Llanberis rhwng 11.30 ac 1.00 o'r gloch. Bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal Mr Andrew Settatee.

REHOBOTH

Dydd Sul, Tachwedd 17: Ni chynhelir oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Tachwedd 10

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Tachwedd 17

10.00 a.m. - Y Parchg Ddr John Glyn
11.30 a.m. - 1.00 p.m.
Sul Efe yn Y Ganolfan, Llanberis
5.00 p.m. - Mr Andrew Settatee

Tachwedd 24

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
Ar ôl yr Oedfa Deulu bydd Cinio Cawl yn y festri er mwyn codi arian at Apêl Haiti.
Croeso cynnes i bawb.
5.00 p.m. - Y Gweinidog



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 566 - Dydd Sul, 10 Tachwedd 2013

Sôn am ryfeloedd

Un o Suliau mwyaf trist y flwyddyn yn sicr yw Sul y Cofio, a heddiw eto caiff gwasanaethau lu eu cynnal i goffau'r holl bobl a laddwyd mewn dau Ryfel Byd a myrdd o ryfeloedd eraill. Gwaetha'r modd, mae'r rhyfeloedd a'r lladd yn parhau, ac eleni eto mae enwau newydd i'w hychwanegu at restr hir y bobl a gollwyd o ganlyniad i'r brwydro ar draws y byd.

Mae Syria, Swdan, De Swdan a Libya mysg y gwledydd sy'n dioddef rhyfel heddiw. Mae'r brwydro'n parhau hefyd yn Affganistan, Irac, Somalia, Yr Aifft a sawl gwlad arall. Er enghraifft, mae dros 6,000 o bobl wedi eu lladd yn Irac eleni, er y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn tybio bod y rhyfela wedi dod i ben yno ers talwm.

Gweddiwn heddiw dros bawb a fydd yn cofio am anwyliad a fu farw ym mhob rhyfel ddoe a heddiw. Boed i Dduw yn ei drugaredd eu cynnal a'u cysuro yn eu hiraeth a'u galar parhaus.

Dros y flwyddyn nesaf bydd pob math o ddigwyddiadau'n cael eu trefnu er mwyn cofio canmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'n debyg bod cannoedd o wahanol bethau wedi eu trefnu ar hyd a lled gwledydd Prydain. Eisoës, clywais ambell un ar y teledu'n cyfeirio at y gweithgareddau hyn fel 'dathliad' o gychwyn y Rhyfel. Mae'n debyg mai'n anfwriadol y defnyddiwyd y gair arbennig hwnnw. Nid rhywbeth i'w ddatlu oedd y Rhyfel Mawr, ac nid rhywbeth i'w ddatlu yw'r un rhyfel

arall. Does ond gobeithio nad clodfori rhyfel a wneir dros y flwyddyn nesaf. Gwnaed gormod o lawer o hynny dros y blynyddoedd. Ai gormod disgwyl y bydd blwyddyn o gofio yn esgor ar benderfyniad newydd i wneud popeth posibl i osgoi rhyfeloedd i'r dyfodol?

Gofidiwn wrth glywed am ryfeloedd. Gweddiwn am gymod rhwng cenedl a chenedl, ac o fewn cenedloedd. Pwyswn ar arweinwyr byd i wneud popeth i ddod â rhyfel i ben ac i osgoi rhyfel. Yr ydym yn dyheu am fydd heb rhyfel na sôn am ryfel.

Ond gwyddom mai byd o bechod yw hwn a bod mewn byd felly bob amser duedd i frwydro a lladd. Fe gawsom rybudd o hynny gan Iesu Grist. 'Byddwch yn clywed am ryfeloedd a sôn am ryfeloedd' (Mathew 24:6). Mae'n mynd ymlaen i ddweud, 'gofalwch beidio â chyffroi, oherwydd rhaid i hyn ddiwydd'. Dweud a wna ei bod yn anrffod y bydd rhyfeloedd ym mhob oes am fod pobl ym mhob oes yn pechu. [Nid dweud wrthym beidio â phoeni am ryfeloedd a wna Iesu yma. Roedd rhai'n dysgu bod yr holl ryfeloedd yn arwydd o ddiwedd buan y byd. Ond dywed Iesu na all neb ddadlau bod rhyfeloedd yn arwydd o ddiwedd y byd, gan fod rhyfeloedd gyda ni bob amser. Ni wŷr neb pryd y daw'r byd hwn i ben.] Yr unig obaith am gymod rhwng pobl a'i gilydd yw Iesu Grist ei hun, sydd yn ein cymodi â Duw ac â phobl eraill trwy ei aberth fawr ar Galfaria.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso i oedfaon Sul arall. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad trwy'r dydd.

Byddaf yn arwain Gwasanaeth Sul y Cofio yn Neiniolen am 9.15 o'r gloch. Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Reuben Roberts, Bontnewydd. Croeso cynnes iddo, a diolch yn fawr am ei wasanaeth.

Byddaf yn arwain yr oedfa yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Bydd oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch, a heno bydd Dr Owain Edwards yn dod atom i arwain yr oedfa. Mae Owain yn feddyg teulu ym Mhenrhyndeudraeth ac ef a'i wraig Sian yw Rheolwyr Coleg y Bala, Canolfan Gwaith Plant ac Ieuencid y Presbyteriaid. Cofiwch bod croeso cynnes i bawb i oedfa MOLI heno fel pob mis.

Byddaf yn arwain yr oedfa am 2.00 o'r gloch yn Rehoboth.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Cymdeithas Undebol

Yng Nghymdeithas Undebol Llanberis nos Fawrth yr wythnos hon, Tachwedd 12, Mrs Gwen Jones, Llanrug fydd yn cyflwyno sgwrs. Mae croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a fydd yn cychwyn am 7.00 o'r gloch.

Plentyn y Nadolig

Wythnos i heddiw yw'r dyddiad cau ar gyfer bocsys esgidiau Ymgrych Plentyn y Nadolig.

Nos Sul, Tachwedd 17 yw'r dyddiad pwysig gan fod angen cael y cyfan yn barod yr wythnos honno ar gyfer y lori a fydd yn dod i'w nôl. Caiff yr holl focsys o Ogledd-orllewin Cymru eu hanfon o'r ganolfan arbennig a fydd yn agored yr wythnos ganlynol yn festri capel y Wesleaid yn Llandrillo yn Rhos, ger Bae Colwyn.

Gallwch ddod â'r bocsys fel arfer i'r capeli neu yma'n uniongyrchol i mi yng Nghilfynydd, Llanberis.

Cyfarfod Blynyddol Efe

Diolch i bawb a ddaeth i Gyfarfod Blynyddol Cynllun Efe yng Nghapel y Rhos, Llanrug nos Lun diwethaf.

Cafwyd adroddiad gan Andrew am waith y flwyddyn ddiwethaf, a bydd crynodeb ohono'n cael ei anfon i eglwysi'r cych cyn bo hir.

Diolchwyd iddo am ei waith ar hyd y flwyddyn gan Richard Lloyd Jones, a oedd yn llywyddu'r cyfarfod.

Cinio Cawl Capel

Ar ôl yr Oedfa Deulu yn Capel Coch fore Sul, Tachwedd 24, bydd croeso i bawb aros i ginio yn y festri.

Bydd yn gyfle i gael pryd o fwyd efo'n gilydd a chodi arian yr un pryd at Apêl Haiti Undeb yr Annibynwyr 2013-2014.

Mae Apêl Haiti yn codi arian at waith Cymorth Cristnogol yn y wlad honno.

Cawn gawl i ginio'r diwrnod hwnnw a chaiff pawb a fydd yno gyfrannu faint bynnag y mae'n ei ddymuno at yr Apêl.

Gobeithio'n fawr y bydd cymaint â phosibl ohonoch yn aros i ginio ar ôl yr oedfa ac y cawn gychwyn da i'r gwaith o godi arian at yr Apêl.

Ethol Blaenoriaid

Yn ystod oedfa'r bore yn Ebeneser am 10.00 o'r gloch ddydd Sul nesaf, Tachwedd 17, byddwn yn cynnal pleidlais i ethol diaconiaid newydd i'r eglwys. Gobeithio bydd cymaint â phosibl o aelodau Ebeneser yn gallu dod i'r oedfa i fwrw pleidlais.

Sul Efe

Ddydd Sul nesaf, Tachwedd 17

yn Y Ganolfan, Llanberis

rhwng 11.30 ac 1.00 o'r gloch

ar gyfer Ysgolion Sul yr ardal

Y chwarae a'r dysgu yng ngofal gweithwyr Coleg y Bala

Croeso cynnes i bawb